# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-16-06(t.5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Cyllideb 2007-08

**Pwrpas**

1. I gyflwyno'r Gyllideb Drafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2007-08 fel y cafodd ei chyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'i chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ar 24 Hydref 2006.

2. Mae Rheol Sefydlog 21 yn darparu fod pob Gweinidog y Cynulliad sy'n aelod o bwyllgor pwnc yn ceisio ei safbwyntiau ynghylch y Gyllideb Ddrafft ac yn eu cyfleu i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Argymhellion**

3. Fod y Pwyllgor yn rhoi ei sylwadau i mi ynghylch y Gyllideb Ddrafft.

**Cefndir**

4. Lansiwyd y cylch cyllideb ym Mai gyda llythyr gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer Cylch Cynllunio'r Gyllideb mewn llythyr ataf gan Rhodri Glyn Thomas ar 6 Gorffennaf 2006 (Atodiad 1). Mae'n bwysig cofio y bydd unrhyw wariant yn y dyfodol bob amser yn cael ei effeithio gan yr hyn a allwn ei gyflawni yn y flwyddyn bresennol. Yn ystod 2006-07 byddwn wedi:

- Gweithredu'r cytundeb deintyddol newydd
- Gwneud gostyngiad pellach yn y ffioedd presgripsiwn i £3 o Ebrill 2006
- Buddsoddi mewn gwasanaethau offer cymunedol y mae cymaint o oedolion a phlant anabl yn dibynnu arnynt, ac mewn technoleg i helpu rhagor o bobl fregus aros yn eu cartrefi eu hunain am amser hirach
- Wedi gwneud gostyngiadau pellach mewn amseroedd disgwyl am lawdriniaeth ddewisol.

5. Datganodd y Gweinidog dros Gyllid y Gyllideb Ddrafft, wrth y Cyfarfod Llawn ar 24 Hydref
Dim ond trwy gydbwyso'r cynnydd mewn un portffolio gyda gostyngiad cyfatebol rywle arall yn y gyllideb y gellir gwneud unrhyw newidiadau i adlewyrchu addasiadau'r gwrthbleidiau.

**Blaenoriaethau Pwyllgor**

6. Drwy weithio o fewn cyfyngiadau ariannol y Gyllideb Ddrafft hon ni fu'n bosib rhoi ariannu ychwanegol i'r holl flaenoriaethau Pwyllgor fel y cawsant eu nodi yn llythyr Rhodri Glyn Thomas ataf ar 6 Gorffennaf. Fodd bynnag darparodd Cylch Cynllunio'r Gyllideb 2004 ddyraniad refeniw pellach yn 2007-08 i ddatblygu Agenda Wanless. Cynigir bod yr ariannu hwn yn cael ei ddefnyddio, yn rhannol, tuag at gefnogi gweithrediad y Cynllun Oes, a hefyd ymateb i rai o flaenoriaethau eraill y Pwyllgor, fel a ganlyn:

## Cynllun Oes – Costau Rhedeg Dwbl - Cymorth Refeniw ar gyfer datblygiad gwasanaethau yn y gymuned

Bydd yr ariannu hwn yn cefnogi datblygiad gwasanaethau yn y gymuned i hwyluso cynlluniau ail-gyflunio gwasanaethau acíwt, ac i wneud cynnydd tuag at weithredu'r model gofal Cynllun Oes. Mae'r dull hwn yn unol â'r penderfyniad unfrydol gan y Cyfarfod Llawn ar 3 Hydref 2006

## Adolygiad o Wasanaethau Canser

Bydd yr ariannu hwn yn cefnogi gweithrediad canfyddiadau adolygiad canser y Pwyllgor, ac yn cynorthwyo i gwrdd â Safonau Canser Cymru Gyfan erbyn Mawrth 2008.

## Datblygiadau Gwybodaeth

Cefnogi datblygiad isadeiledd y cofnod cleifion electronig a mentrau TG gofal sylfaenol.

## Ymateb i Adroddiad Cooksey

Bydd ariannu yn cefnogi ymateb Cymru i ychwanegu buddsoddiad ychwanegol.

## Blaenoriaethau Eraill y Pwyllgor

7. Mae blaenoriaethau'r Pwyllgor nad ydynt yn derbyn ariannu penodol yng Nghylch Cynllunio'r Gyllideb 2006 fel a ganlyn:

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Dyrannwyd £5 miliwn yn Hydref 2005 i ddatblygu gweithrediad Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl Oedolion (NSF). Mae Gweithred Allweddol 26 o'r NSF yn dweud ‘Erbyn Mawrth 2007 mae'n rhaid i ALlau/BILlau gynllunio ar gyfer sefydlu rhychwant o therapïau seicolegol ym mhob ardal.’ Cefnogir hyn gan dargedau a osodwyd gan y broses Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid (SAFF). Mae £0.6 miliwn hefyd wedi ei ddyrannu yn gylchol yn 2006-07 i gefnogi CAMHS.

## Gwasanaethau Ambiwlans

Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn cwblhau cynllun moderneiddio a fydd yn dynodi angen ar gyfer ariannu cyfalaf a fydd yn destun i ddatblygu achosion busnes priodol. Ar 12 Hydref cyhoeddais fuddsoddiad cyfalaf o £16 miliwn dros 2 flynedd. Rwyf hefyd wedi gwneud darpariaeth i gwrdd â chostau refeniw ychwanegol y Cynllun Amnewid Radio yn 2007-08. Rydym wedi cytuno i ystyried bidiau cyfalaf eraill gan y Gwasanaeth Ambiwlans i gefnogi'r agenda foderneiddio hwn.

### Ariannu Cyfalaf ar gyfer y Cynllun Oes

Mae Cylch Cynllunio'r Gyllideb 2004 eisoes wedi darparu rhaglen buddsoddiad cyfalaf o werth £295 miliwn yn 2007-08 i gefnogi'r Cynllun Oes

### Cyllideb Gyffuriau

Mae'r cyllidebau presgripsiynau gofal sylfaenol wedi eu cynyddu o 7% yn 2007-08.

### Datblygu Rhwydweithiau Clinigol

Cydnabu'r Pwyllgor nad oedd y mater hwn o bryder yn ariannol sylweddol. Rhoddir ystyriaeth bellach ar gyfnod diweddarach pa un ai i ddynodi ariannu ar gyfer y rhwydwaith niwro-gyhyrog, y cyfeiriwyd ato yn y Pwyllgor. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ariannu wedi ei ddarparu ar gyfer hyn.

### Ystyriaeth

8. Mae'r Tablau Cyllideb Drafft yn cynnwys cynyddiadau ariannu fel y nodir isod:

### Ariannu ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - £5,487.9 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £370.8 miliwn dros 2006-07.

9. Mae hyn yn gyfanswm cynnydd yn 2007-08 o 7.2 y cant dros 2006-07.

### Ariannu ar gyfer Iechyd - £5,335.5 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £348.5 miliwn dros 2006-07

10. Mae'r cynnydd ar gyfer Iechyd yn 2007-08 yn 7.0 y cant dros 2006-07. Mae'r gyllideb hon nid yn unig yn gadael i ni ariannu cynyddiadau cost GIG ond hefyd ariannu datblygiadau newydd megis cyflwyno rhaglen sgrinio canser y perfedd a chyflwyniad mannau cyhoeddus di-fwg.

### Ariannu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol - £152.4 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £22.3 miliwn dros 2006-07.

11. Mae'r cynnydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi'i gynnwys o fewn y Prif Grwp gwariant (MEG), yn 17.2 y cant dros 2006-07. Mae'r cynnydd hwn yn parhau i ddangos ymrwymiad clir i ariannu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cydnabod y rôl allweddol y mae'n ei chwarae wrth gynyddu cynhwysedd o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdodau lleol, ac i sefydlu Swyddfa

Comisiynydd dros Bobl Hyn yng Nghymru.

**Maes Rhaglenni Gwariant Dyraniadau GIG (Refeniw)**
**Ariannu - £4534.6 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £267.5 miliwn dros 2006-07**

12. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £267.5 miliwn, neu 6.3 y cant, dros 2006-07. O fewn hyn rydym yn ariannu;

- Dyfarniadau Tâl GIG a chwyddiant nad yw'n dâl
- Codiad ar y Gyllideb Bresgripsiynau Cyffuriau
- Contract Deintyddol
- Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)
- Contract Fferyllfa

**Maes Rhaglenni Gwariant Dyraniadau GIG (Cyfalaf)**
**Ariannu - £295.915 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £76.2 miliwn dros 2006-07**

13. Y cynnydd mewn ariannu ar gyfer 2007-08 yw ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i gynyddu gwariant cyfalaf yn GIG Cymru o £220m yn 2006-07 i £295m yn 2007/08 ac yn dod â ni at lefel y byddwn eisiau o leiaf ei chynnal am weddill y rhaglen buddsoddiad cyfalaf 10 mlynedd. Mae hon yn rhaglen foderneiddio sydd i ddigwydd dros y 10 mlynedd nesaf fel rhan o'r "strategaeth Cynllun Oes". Bydd elfennau allweddol y rhaglen gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn cynnwys buddsoddiad mewn ailgyflunio safleoedd ysbyty, y strategaeth ddiagnostig sy'n tanategu'r gwasanaethau hyn, ailgyflenwi'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gwella amseroedd mynediad a gostwng risgiau eiddo mawr.

**Maes Rhaglenni Gwariant Datblygu Gweithlu**
**Ariannu - £291.6 miliwn yn 2007-08; gostyngiad o (£4.6) miliwn dros 2006-07**

14. Mae gostyngiad yn 2007-08 o (£4.6) miliwn. Mae hwn yn addasiad net sy'n deillio o gynnydd cyllideb o £36.2 miliwn a'r trosglwyddiad cylchol o ariannu i Ddyraniad BILl yn achos yr Agenda ar gyfer Newid a Chontractau Ymgynghorwyr.
Mae'r cynnydd mewn ariannu yn ymwneud yn bennaf â chost gynyddol yr Agenda ar gyfer Newid a chefnogaeth barhaus ar gyfer estyniad hyfforddiant myfyrwyr meddygol a deintyddol israddedig ac ôl-raddedig.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gwybodaeth**
**Ariannu - £30.2 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £0.9 miliwn dros 2006-07**

15. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £0.9 miliwn, neu 3.4 y cant, dros 2006-07
Mae'r Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn cynnwys costau rhedeg ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Teleiechyd a'r Strategaeth Gwasanaethau Diagnostig ar gyfer Cymru, fel y nodwyd yn y Cynllun Oes. Mae'r Rhaglen Teleiechyd yn gweithio tuag at ddatblygu cyfleusterau Teleiechyd i gefnogi llwybrau gofal estynedig ar gyfer rheolaeth clefyd cronig yng Nghymru. Mae'r Strategaeth

Gwasanaethau Diagnostig yn ymwneud â chynlluniad a moderneiddio gwasanaethau diagnostig yn y dyfodol o fewn fframwaith cenedlaethol neu ranbarthol.

**Maes Rhaglenni Gwariant Ansawdd a Diogelwch Cleifion**
**Ariannu - £31.5 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £3.3 miliwn dros 2006-07**

16. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £3.3 miliwn neu 11.9 y cant dros 2006-07. Mae'r cynyddiadau yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn bennaf ym maes ariannu Ymchwil a Datblygiad (R&D) yng Nghymru. Mae'r ariannu hwn wedi'i gyfeirio at barhau cefnogaeth i ddatblygiad isadeiledd R&D Cymru gyfan mewn Iechyd & Gofal Cymdeithasol (a adnabyddir hefyd fel Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol ar gyfer Cymru - CRC Cymru). Mae'r datblygiad isadeiledd yn galluogi Cymru i chwarae rhan lawn yn CRC y DU a bydd yn cynyddu gallu'r gymuned ymchwil yng Nghymru i ddenu incwm o ffynonellau masnachol ac anfasnachol. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwaith partneriaeth gwerthfawr gyda'r Cyngor Ymchwil Meddygol.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gofal Sylfaenol**
**Ariannu - £16.8 miliwn yn 2007-08 gostyngiad o (£1.1) miliwn dros 2006-07**

17. Mae'r gostyngiad net mewn ariannu ar gyfer Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn bennaf oherwydd diddymiad y llinell gyllideb paratoi contract deintyddol, nad oes ei angen bellach. Mae'r gostyngiad hwn wedi ei osod yn rhannol yn erbyn y cynnydd arfaethedig mewn ariannu ar gyfer y Fenter Gofal Llygaid

**Maes Rhaglenni Gwariant Iechyd Meddwl**
**Ariannu - £17.0 miliwn yn 2007-08 cynnydd o £2.9 miliwn dros 2006-07**

18. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £2.9 miliwn, neu 20.4 y cant, dros 2006-07. O fewn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn mae darpariaeth ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl, Deddf Gallu Feddyliol a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl.

**Maes Rhaglenni Gwariant Clefydau cronig**
**Ariannu - £1.1 miliwn yn 2007-08 cynnydd o £0.1 miliwn dros 2006-07**

20. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £0.1 miliwn, neu 9.8 y cant, dros 2006-07. Ariannu yw hwn ar gyfer darparu model integredig a fframwaith ar gyfer gweithredu mewn rheolaeth clefydau cronig.

**Maes Rhaglenni Gwariant Canser**
**Ariannu - £4.9 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £1.5 miliwn dros 2006-07**

21. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £1.5 miliwn, neu 43.2 y cant, dros 2006-07 yn cynrychioli ariannu i helpu i gwrdd â Safonau Canser Cenedlaethol, yr Amseroedd Aros yn achos Canser, a'r targedau Gwella Iechyd Ewropeaidd. Bydd y rhain yn gostwng y nifer o farwolaethau cynamserol oherwydd canser; yn gwella'r ddarpariaeth o Wasanaethau Canser ac ansawdd bywyd y cleifion.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gofal Iechyd Arall**
**Ariannu - £2.5 miliwn yn 2007-08; gostyngiad dros 2006-0 7 - (£2.5) miliwn**

22. Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad o arian a drosglwyddir o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gwrdd â phwysau cost a ddynodwyd. Mae'n drosglwyddiad cylchol o 2006-07.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gwell Mynediad**
**Ariannu - £7.7 miliwn yn 2007-08; gostyngiad dros 2007-08 - (£0.4) miliwn**

23. Trosglwyddiad o £(0.4) miliwn fel y cytunwyd yn dilyn newidiadau cylchol o 2006-07 yn achos ariannu hyfforddiant Endosgopi ar gyfer sgrinio canser, trosglwyddo i Linell Wariant y Gyllideb (BEL) Addysg & Hyfforddiant, ariannu yn achos Orthopedigau, Uned Cynorthwyo Cyflenwi, Cynllun 2il Gynnig a Calman SPRs yn trosglwyddo i'r Dyraniad Refeniw Bwrdd Iechyd Lleol.

**Maes Rhaglenni Gwariant Ataliad**
**Ariannu - £48.4 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £2.5 miliwn dros 2006-07**

24. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £2.5 miliwn, neu 5.4 y cant, dros 2006-07. O fewn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn mae ariannu ar gyfer Her Iechyd Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio i ymestyn cyrhaeddiad y rhaglenni hyrwyddo iechyd presennol er mwyn cynorthwyo pobl i wneud mwy i edrych ar ôl eu hiechyd ac iechyd eu plant. Mae darpariaeth hefyd wedi ei chynnwys ar gyfer cyflwyno Mannau Cyhoeddus Di-fwg. Bydd yr ariannu hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar y Cam Cyllideb Terfynol.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Plant**
**Ariannu - £17.4 miliwn yn 2007-08; gostyngiad dros 2006-07 - (£13.0) miliwn**

25. Mae'r gostyngiad yn cymryd i ystyriaeth y trydydd gyfnod o drosglwyddo Grant Plant yn Gyntaf i'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol. Mae ariannu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys adnoddau ychwanegol i gydnabod pwysau mewn gwasanaethau plant; byddai hyn yn cynnwys cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer gofalwyr maeth. Mae'r ariannu hwn yn rhan o Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Leol.

**Maes Rhaglenni Gwariant Gwasanaethau Pobl Hyn**
**Ariannu - £55.5 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £3.3 miliwn dros 2006-07**

26. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £3.3 miliwn, neu 6.4 y cant, dros 2007-08, ac yn cynnwys codiad ar gyfer Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG, ac ariannu i gefnogi costau rhedeg Swyddfa'r Comisiynydd dros Bobl Hyn yng Nghymru.

**Maes Rhaglenni Gwariant (Refeniw) Gofal Cymdeithasol Oedolion Eraill**
**Ariannu - £85.2 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £18.3 miliwn dros 2006-07**

27. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £18.3 miliwn, neu 27.3 y cant, dros 2006-07. Bydd yr ariannu ychwanegol yn cefnogi'r rhaglen Ailgyflenwi'r Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru a'r pecyn o fesurau i ostwng ffioedd a gwella gwasanaethau gofal cartref ar gyfer pobl hyn ac anabl.

**Maes Rhaglenni Gwariant (Cyfalaf) Gofal Cymdeithasol Oedolion Arall**
**Ariannu £19.8 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £13.3 miliwn dros 2006-07**

30. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £13.3 miliwn, neu 206 y cant, dros 2007-08. Bydd yr ariannu ychwanegol hwn yn cefnogi gwell gwasanaethau offer cymunedol ar gyfer oedolion a phlant anabl. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu defnydd teleofal o amgylch Cymru, a ddaw yn llwyfan gwasanaeth newydd ar gyfer yr henoed a'r anabl gyda'r bwriad o roi cymorth i 10,000 o bobl ychwanegol trwy gyfleusterau teleofal.

**Maes Rhaglenni Gwariant AGCC**
**Ariannu - £27.4 miliwn yn 2007-08; cynnydd o £2.5 miliwn dros 2006-07**

31. Mae'r cynnydd yn y Maes Rhaglenni Gwariant hwn yn 2007-08 yn £2.5 miliwn, neu 10.1 y cant, dros 2006-07. Bydd yr ariannu ychwanegol yn gymorth pellach i Hyfforddiant NVQ, i alluogi cwrdd â thargedau hyfforddiant cenedlaethol ar draws y Sector Gofal Cymdeithasol ac i wella rheolaeth a systemau TG mewn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Cydymffurfiad

32. Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r Cyllidebau ym Mhrif Grwp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyllideb y Cynulliad. Ymdrinnir â Gweithdrefnau'r Cynulliad mewn perthynas â dyraniad Cyllidebau Rhaglenni o dan Reol Sefydlog 21. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad wedi ei weld ac yn fodlon.

## Goblygiadau Ariannol

33. Nodir y goblygiadau ariannol yn y tablau Cyllideb Drafft.

## Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

34. Gofynnir i'r Pwyllgor roi ei safbwyntiau i mi ynghylch y Gyllideb Ddrafft erbyn 22 Tachwedd.

**Brian Gibbons**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Pwynt cyswllt – Steve Elliot, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, ffôn 029 2082 3245**